

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 193

Pris 80c

Mis Mehefin 2017





Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

CASTELL CAERFFILI
MEHEFIN 17 JUNE, 2017 | 11:00-19:00
DIWRNOD AM DDIM I'R TEULU!
FREE DAY OUT FOR THE FAMILY!



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Llundiau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** bethanjones@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Yr Uchod, Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Gwasanaethau Capeli Cymraeg Caerffili

Bethel, Ffordd Nantgarw

4ydd 10.30. Parch Robert Owen Griffiths

11eg 10.30. Alun Johnson

18fed 10.30 Gareth Hughes
6.00 Ann O'Neill

25ain 10.30 Eirwen Richards.

Tonyfelin, Heol Bedwas

4ydd Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

11eg Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

18fed Cydaddoli ym Methel

25ain 10.30 : i'w drefnu

6.00 : Parch Gareth Evans

Capel y Groeswen

11eg 3.00 Parch Teify Ebenezer



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Hanes Cwm Ni

8/6/17 Hefin Mathias
'David Davies Llandinam a'i waith dros hybu heddwch yng Nghymru'

6/7/17 Allan Cook
Trip o gwmpas Canolfan Llong Ganoloesol Casnewydd
6pm: Uned 20, Estuary Road Casnewydd, NP19 4SP
7:30pm: Bwyd yn Tiffins
Heol Spytt, Casnewydd
NP19 4QR

Ble?
Clwb Rygbi Penallta,
Ystrad Mynach, CF82 7EP
Faint o'r gloch? 7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702

Eisiau dysgu mwy am hanes yr ardal? Dewch i wrando.
Addas ar gyfer CANOLRADD UWCH a HYFEDREDD
Digwyddiad am ddim.

Ffilifest - Hwyl i bawb yn y Castell



Mae diwrnod llawn hwyl gyda mynediad am ddim wedi'i drefnu yng Nghastell Caerffili ar ddydd Sadwrn Mehefin 17eg. Gŵyl flynyddol Menter Caerffili yw Ffilifest i ddathlu iaith a diwylliant Cymru, ac fe fydd y digwyddiad yn cynnwys perfformiadau, adloniant, gweithgareddau, gweithdai a chyfle i grwydro'r castell.

Mae Menter Caerffili wedi gweithio yn agos gyda CADW, grwpiau cymunedol a pherfformwyr i drefnu'r digwyddiad mewn lleoliad hollol unigryw.

Mae cannoedd o blant yr ysgolion lleol yn paratoi ac yn ymarfer dawnsio gwerin ar y brif lwyfan sef arddangosfa dawnsio gwerin fwyaf y Sir. Mae'r ŵyl eleni yn parhau tan 19:00, gyda pherfformiadau gan fandiau a pherfformwyr Cymreig fel Candelas, John Nicholas, Adwaith a mwy. Fe fydd stondinau nwyddau, amrywiaeth o fwyd a diod yn cynnwys carafán coctels a phabell cwrw a seidr, hefyd gweithgareddau a gweithdai addysgol amrywiol megis pabell celf a chrefft, ardal VR a gemau retro a hyn i gyd o fewn y Castell.

Dywedodd Bethan Jones o Fenter Caerffili ynglŷn â'r resymau dros gynnal yr ŵyl:

"Yn Ffilifest rydym ni'n croesawi pobl o bob oedran i ddod i fwynhau iaith a diwylliant Cymru mewn lleoliad ffantastig. Mae'r digwyddiad yn cynnig cyfleoedd i bobl i gysylltu â'r Gymraeg beth bynnag eu gallu. Dy'n ni'n gyffrous iawn i weld Ffilifest yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn."

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'n prif noddwyr sef, Llywodraeth Cymru, Cyngor B.S.Caerffili a'r Gronfa Loteri Fawr.

Fe fydd Ffilifest ar Fehefin 17 rhwng 11:00-19:00 yng Nghastell Caerffili. Am fwy o wybodaeth ewch i www.mentercaerffili.cymru neu 01443 820913



Pob lwc i bawb ar Faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Penybont ar Ogwr, Taf ac Elai. Dewch draw am dro. Mae rhywbeth at ddant pawb. Dyma linc i wefan yr Urdd sydd a llawer iawn o wybodaeth a manylion sut i gyrraedd y Maes. Gwelwn ni chi yno. <http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/gwybodaeth/cwestiynau-cyffredin/>

Geiriau o'r Gorffennol - 3

gan Dr Elin Jones

Mis Mai yw mis harddaf y flwyddyn, ym marn llawer ohonom. Mae sawl bardd wedi canu clod y mis hwn, mis cyntaf yr haf, o Dafydd ap Gwilym - 'Mai, fis difai' - i R. Williams Parry - 'Mai yn dduw ym min y ddôl'.

Ond disgrifiodd bardd arall harddwch Mai, a hynny ganrifoedd cyn Dafydd ap Gwilym. Nid oes enw i'r bardd hwn bellach, a dydyn ni ddim yn gwybod dim amdano. Daw ei disgrifiad byw o harddwch mis Mai o *Llyfr Du Caerfyrddin*, llawysgrif sy'n perthyn i'r 11fed ganrif.

Rhoddodd y bardd anhysbys hwn yr hen enw Celtaidd i'r mis - *cyntefin*, sef 'mis cyntaf tywydd yr haf' - sy'n cyfateb i *Mehefin* - 'canol tywydd yr haf' - a *Gorffennaf* - 'diwedd yr haf'. Daw ein henw ni ar fis *Mai* o'r Lladin, fel enwau rhai o fisoedd eraill ein calendar, megis Ionawr, Chwefror, Mawrth ac Ebrill.

Dyma eiriau agoriadol ei gerdd:

*Cyntefin, ceinaf amser,
Dyar adar, glas calledd,
erydr yn rhych, ych yng ngwedd,
Gwyrdd mor, brithottor tired...*

'Dechrau haf, yr amser harddaf, /yr adar yn canu'n uchel, y coed yn las,/yr erydr yn y rhych, yr ychen yn y gwedd, /y môr yn wyrdd a'r caeau amrywiaeth o liwiau...'



Aredig gydag ychen yn yr Oesoedd Canol (o wefan <http://www.witheridge-historical-archive.com/medieval-year.htm>)

Ie, amser o harddwch a thywydd teg, ac addewidion yr haf ym mhobman. Amser o lawenydd i ni heddiw - ac i'r beirdd fu'n canmol y mis hwn dros y canrifoedd. Ond mis trist oedd hwn i fardd yr 11eg ganrif - mis o alaru ar ôl y meirw. Ebrill a Mai oedd misoedd caletaf y flwyddyn yn y cyfnod hwnnw.

Roedd bwyd yn brin, oherwydd bod cynnyrch y cynhaeaf blaenorol wedi ei fwyta a chnydau'r tymor newydd heb aeddfedu eto. Dyma'r adeg y byddent yn clywed y gog yn galw 'Cwdd? Cwdd?' (sef 'Ble? Ble?' yn Gymraeg y cyfnod). Byddai cwestiwn y gog yn peri i'r bardd, fel ei gyfoedion, feddwl am y rhai annwyl a gollwyd i salwch a phrinder bwyd.

*'Pan ganont gogau ar flaenau gwýdd gwiw,
handid mwy fy llawfrydedd...
Can ethynt fy ngheraint yn adwedd'.*

'Pan mae'r gog yn canu yng nghanghennau'r coed hardd,/ mae fy nhristwch yn cynyddu, .../ oherwydd aeth fy annwyliaid lawr i'r bedd':

Yng nghysgod Carn Bugail, ar lethr orllewinol Mynydd Gelligaer, mae olion tai o'r 13edd a'r 14edd ganrif, sef cyfnod Dafydd ap Gwilym. Cloddiwyd y safle gan y Fonesig Aileen Fox yn y 1930au a chanfyddwyd sylfeini 11 o dai mewn ardal a adwaenid fel 'Dinas Noddfa'.

Byddai'r bobl a drigai yn y tai hyn wedi croesawu harddwch mis Mai, fel y gwnaeth y beirdd ar hyd y canrifoedd. Ond fel bardd y Llyfr Du, byddent hefyd wedi tristáu wrth glywed y gog. Yn eu cyfnod nhw roedd yr hinsawdd yn gwaethygu, ac roedd yn fwyfwy anodd iddynt ffarmio'r tir. Crafu byw yr oeddynt, ac yna ddaeth y Pla Du ym 1349... Nid oes tystiolaeth fod neb yn byw yn Ninas Noddfa ar ôl y 14eg ganrif.



Hendre'r-ywydd Uchaf, Sain Ffagan (o wefan yr Amgueddfa, <https://museum.wales/stfagans/>)

Llongyfarchiadau

Ein pleser yw llongyfarch darllenwyr "CwmNi" a etholwyd neu a ail etholwyd i yn aelodau o'u cyngor cymunedol neu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn yr etholiadau a gynhaliwyd ar y 4^{ydd} o Fai. Llongyfarchiadau iddynt o ba blaidd bynnag y maent yn perthyn.

Sian Skivens, Peredur Griffiths, Huw Jackson, John Taylor, James Fussell, Lindsay Whittle, Jeff Grenfell, Jenny Hibbert.

Os ydym wedi gadael unrhyw un allan, rhowch wybod i ni gael cynnwys eu henwau yn ein rhifyn nesaf.

Posau'r Plant

gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

Llun o lofa'r Windsor, Abertridwr, yw hwn.



Mae enw11 o weithfeydd glo oedd yn arfer bod yn y cwm yn y **Chwilair**.

Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

B	O	R	O	S	D	N	I	W	T	H	Y
R	L	A	V	E	U	R	N	E	P	L	
I	A	F	F	B	M	A	C	L	R	A	
T	S	G	E	P	R	W	O	L	Y	N	
A	R	H	N	R	I	D	T	H	I	R	B
N	E	R	A	L	C	A	M	O	L	R	
N	V	D	L	S	M	V	I	T	L	A	
I	I	D	T	B	A	R	G	O	E	D	
A	N	S	A	W	D	E	B	E	D	A	
W	U	W	L	A	N	G	R	Y	W	C	H

Gweithfeydd Glo

WINDSOR	UNIVERSAL	BARGOED
LLANBRADACH	PENALLTA	BRITANNIA
BEDWAS	MACLAREN	BEDWAS
DARRAN	BRITHDIR	

Nawr, trowch i dudalen 15 i weld a oedd eich atebion yn gywir.

Dweud eich dweud!

Mae Panel Cyfryngau Cymru'n chwilio am bobl o bob oed, o bob rhan o Gymru i lenwi holiaduron am raglenni a gwasanaethau teledu.

Mae'r holiaduron yn hawdd a chyflym i'w llenwi a chewch dalebau siopa, arian i elusen neu hyd at £500 y flwyddyn i grŵp cymunedol (e.e. côr, Merched y Wawr neu glwb chwaraeon) am gymryd rhan.

Gallwch ddewis llenwi'r holiaduron am ddim ar-lein neu drwy'r post.

Gweithredir yr ymchwil gan gwmni ymchwil TRP Research ar ran S4C.

Ymunwch ar-lein www.panelcyfryngau.cymru neu drwy ffonio Sian ar 07494 506 962.

Sian Evans

Uwch Swyddog Ymgysylltu

Ffôn | Phone 07494506962
E-bost | E-mail cymorth@panelcyfryngau.cymru | help@mediapanel.wales
Gwefan | Website www.panelcyfryngau.cymru | www.mediapanel.wales
Trydar | Twitter @PCCMPW

Cofio Heulwen Jones, Ael-y-bryn, Caerffili.



Magwyd Heulwen Jones yn ardal Aberhonddu, er iddi gael ei geni yng ngogledd Sir Gaerfyrddin. Bu hi a'i theulu yn fodlon braf ym Mrycheiniog, ac er nad oedd canran sylweddol yn medru'r Gymraeg yn y fro, gwelodd ei phwysigrwydd a bu ei hangerdd at Gymru a'r Gymraeg yn amlwg yn ei bywyd ar hyd ei hoes. Wedi cyfnod o hyfforddiant i fod yn athrawes, cyrhaeddodd tref Caerffili a byw am gyfnodau byr ar Barc Lansbury ac yna ar Barc Churchill. Rhannai gartref gyda'i ffrindiau ac yn eu plith y diweddar Ann Morris Jones. Bu'n dysgu mewn dwy ysgol Gynradd, sef yn Ysgol Derwen Deg, Hengoed ac yn Ysgol Cwm Ifor, Penyrheol, Caerffili

Bu'n amlwg ei chefnogaeth i Blaid Cymru ac yn ffyddlon i'r gangen leol.

Cafodd gymar oes yn Dennis Jones, brodor o Lanbradach, a rannai yr un weledigaeth wleidyddol a threuliodd y ddau amser sylweddol yn cerdded palmentydd yr ardal yn hyrwyddo'r achos. Bu'r ddau yn briod am yn agos i ddeugain mlynedd ac yn byw yn Ael-y-bryn, Caerffili. Roedd yn wraig ddiwylliedig iawn, gan fwynhau'r celfyddydau cain, yn mynd i theatrau, sinema ac orielau, gan roi amser i ddarllen a cherddoriaeth. Bu Heulwen a Dennis yn cerdded llawer, gan sicrhau bod amser ar gael i ddosbarthu'r papur bro a hynny am flynyddoedd.

Er iddi wynebu tostrwydd mwy nag unwaith, hwylodd drwyddynt gyda gwên bob tro, ond daeth y cancr olaf yn ddisymwth ac yn hynod greulon. Bydd ei ffrindiau yn ei chofio fel cyfeilles selog ac yn athrawes ymroddedig. Roedd iddi hyder didwyll ac awydd i weld yr ochr orau bob tro.

Cydymdeimlwn gyda Dennis a gweddill ei theulu yn eu hiraeth amdani.

Cynhelir angladd Heulwen yn Amlogfa Thornhill prynhawn dydd Mawrth, 30ain o Fai am 2:45 ac yna i Westy'r Tŷ Newydd am 3:45.

Y Parchedig Denzil John

Cofio Miss Jean Williams

Gyda chalon drom cyhoeddwn am ymadawiad chwaer annwyl drosben, diacon a ffrind mynwesol. Pan oeddwn yn Ysgrifennydd Bethel, Caerffili, dros 40 mlynedd yn ôl Jean oedd y cyntaf i fod yn gefn i mi ac yn gydymaith a mawr yw fy nyled iddi. Nid wyf am ddweud ei hanes wrthyf, na'i thras, na'i gwaedoliaeth ond dweud yn syml ei bod yn ei theulu, yn ei heglwys, yn ei hysgol ac yn ei chymdeithas yn fawr ei pharch - roedd "yn cyfrif" - "she counted".

Roedd yn ei gwaith yn gydwybodol tu hwnt a chyda sirioldeb a hynawsedd ar bob achlysur. Prif athrawes oedd, er dywedodd wrthyf fwy nag unwaith, nag oedd hynny yn dweud ei bod yn well athrawes nag unrhyw athrawes arall ond ei bod yn ddiolchgar ei bod yn cael mwy o gyfle i ddysgu ac arwain plant i gymryd ei lle mewn cymdeithas ar ddiwedd y dydd.


Credaf fod ei dylanwad wedi bod yn fawr yng Nghwm yr Aber, ac yn sicr hyd heddiw roedd y plant a'r rhieni yn ddiolchgar iddi. Roedd ei chymeriad yn ddisglair a thrwy hyn fe ddangoswyd effaith ei gwaith. Yn hyn i gyd ni anghofiodd ei theulu a gwnaeth ei gorau drostynt.

Bendith iddynt i gyd a fu'n agos tu hwnt ati yn ei salwch y blynyddoedd diwethaf. Heddwch i'w llwch a diolchwn iddi am ei gwaith dros y gymdeithas yn y Cwm. Gellid torri peth salach ar garreg ei bedd na'r ddau air syml – Roedd yn Cyfri – "She counted".

Elwyn Parry

Pêl-law

gan Gareth W. Williams




Yn ddiweddar yn Nhafarn y Royal Oak yn Nelson cynhaliwyd lansiad o lyfr newydd Kevin Dicks ar hanes pêl-law oedd yn ffrwyth ugain mlynedd o ymchwil Roedd pêl-law yn gêm boblogaidd dros y byd i gyd yn ôl pob sôn ac yn arbennig yng Nghymru. Mae'r llun yma yn sicr yn tystio i hynny gyda channoedd wedi ymgasglu o amgylch y cwrt yn Nelson i wyllo gornest ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Bellach, dim ond y cwrt hwn sy wedi goroesi, gyda bri ar y chwarae wedi hen fynd. Mae rhai, gan gynnwys Kevin ei hun yn dal i gadw'r ffydd ond crair hanesyddol ydyw'r

cwrt bellach yn hytrach na thalwrn o gystadleuaeth grasboeth.

Roedd y lansiad gan Wasg y Lolfa yn digwydd yn y lle mwyaf addas gan mai Tafarn y Royal Oak dalodd am y cwrt y tu allan i'w drysau er mwyn denu cwsmeriaid sychedig yn yr oes a fu. Hon ydy gêm genedlaethol fwyaf hynafol Cymru, gyda'i hanes yn mynd yn ôl dros ganrif a hanner.

Gêm digon syml oedd hi, oedd yn galw am ddim mwy na wal a phêl a digon o le er mwyn ei chwarae. Defnyddid waliau ysgolion a chapeli lu i ddod â difyrrwch i'r bobloedd, ond tyfodd hi'n llawer mwy na difyrrwch. Roedd arian i'w wneud i'r llawiwr buddugol ac arian i'w wneud, neu ei golli, yn sgil y betio a wnaed ar y canlyniad. Felly pan ewch chi heibio i'r cwrt yn Nelson tro nesa, meddylwch am y llun hwn, a'r bwrlwm a fu y tu allan i'r dafarn un tro.

Cynhelir pencampwriaeth y byd yn flynyddol yn Nelson, er mai bach iawn yw'r byd bellach. Efallai daw'r bwrlwm yn ôl. Bydd y llyfr hwn yn gymorth.



Cerddi o gasgliad Moyra Davies

Ifor Bach

Wyth canrif hir aeth heibio
Er dyddiau Ifor Bach,
Y gŵr fu'n herio'r Norman
A pheri ofn i'r crach.
Fe ddeuai o Senghenydd
Roedd Arglwydd ar y Sir,
Ond sathrwyd ar ei freintiau
A dwynwyd peth o'i dir.

Aeth Ifor gyda'i fintai
I gastell tref Caerdydd,
Fe ddringodd dros y muriau
Ar ganol nos mewn ffydd,
Ymlwybrodd rhwng y gwylwyr
Heb wybod iddynt hwy,
A dwyn yr iarll a'r iarllles
A'u hunig fab o'u plwy.

Fe gadwodd rhain yn wystl
Yng Nghastell Coch, ei gaer,
Gan wrthod rhoi eu rhyddid
Er bygwth cas a thaer.
Nes cawsai gan y Norman
Addewid am ei dir
A derbyn ei arglwyddiaeth
A'r gyfran deg o'r sir.

Cytgan
Gorweddai iau y gorthrwm
Yn drwm ar wegil gwlad,
Rheolai nerth y castell
Ar fflangell teyrn y brad,
Ond er holl rym y Norman hy,
Roedd Ifor Bach yn drech na'i lu.
*Y geiriau gan Moi Parri a'r
gerddoriaeth gan Ann Hopcyn*

Castell Caerffili

Un bore teg ar doriad gwawr
Mi es am dro i'r castell mawr
Sy'n sefyll eto megis cawr
Yn gwarchod bro Caerffili.
A gwelais mewn dychymyg pur
Y marchog dewr â'i arfau dur,
A baner Cymru ar y mur
Wrth uchaf dŵr Caerffili.

Mae'r lleisiau glywid yma gynt
Yn dod i'm clyw ar frig y gwynt
Mai hud canrifoedd pell eu hynt
Yn fyw ym mro Caerffili.
Mae llais Llywelyn, llais Glyn Dŵr
Yn seinio'n glir o ben y tŵr
Yn galw arnom fel un gŵr
O gastell hen Caerffili.

Anhysbys

Clecs y Castell!



Enillwyr y Goron A'r Gadair 2017!



Enillydd y goron

Yng nghystadleuaeth y Goron roedd y beirniad Mr Daniel Davies wedi gwirioni gyda gwaith Seren. Mae'r Goron am yr ymdrech fwyaf, ac fe wnaeth Seren ddisgleirio fel yr un mwyaf amlwg oedd wedi cynllunio, ysgrifennu ac ail ddrafftio'n effeithiol.

Ymson gan Seren

Codaf deimlo'n drist ac yn poeni am y rhyfel. Beth os nad ydyn nhw'n ennill? Beth os nad ydy'r rhyfel afiach yma ddim yn dod i ben? Ydy fy ffrindiau yn ofnus? Sut ydy'r rhyfel yn helpu ni gadw'r byd yn saff os mai 'na fomiau a drylliau? Rydw i'n gofyn i fy hunain bob amser, os ydw i a fy ffrindiau yn saff yma.

Edrychaf mas o'r ffenest gan weld pobol yn chwifio yn hapus i'r milwyr oherwydd eu bod yn mynd i ymladd. Mae pobol yn teimlo'n ofnus, gofidus, yn crio ac yn sgrechian. Cerddaf trwy'r goedwig a gwelaf y gwersyll. Mae'r plant yn oer fel eira oherwydd yr unig wisg sydd ganddynt ydy pyjamas streipiog. Teimlaf yn ofidus oherwydd beth maen nhw'n gwneud i'r plant. Dydyn nhw ddim efo gwisg addas ar gyfer y gaeaf.

Ar y ffordd yn ôl o'r gwersyll meddyliaf am y rhyfel a beth sydd yn mynd i ddigwydd. Ydyn nhw'n mynd i ennill? Teimlaf yn betrusgar wrth gerdded trwy'r goedwig, dywyll fel ogof, ar fy mhen fy hun. BLE MAE MAM? Beth os fydd hi wedi mynd?....Rydw i'n gallu clywed pobl yn wylo a sgrechian. Yn yr ysgol mae yna fwyd. Rydw i'n gallu mynd â bwyd i'r gwersyll. Mae angen bod yn gyflym cyn i'r athrawon gyrraedd. Meddyliaf am ryfel ar y ffordd i'r gwersyll. Clywaf FOMIAU, DRYLL.....

Diolch i gymuned yr ysgol am ddathlu gyda ni. Diwrnod i'w gofio a'i drysori.

Enillydd y Gadair

Cadeiriwyd William fel prif lenor yr eisteddfod. Ysgrifennodd William ymson oedd yn sôn am yr Ail Ryfel Byd. Yr oedd y beirniad, Mrs Anwen Hill, wedi ei phlesio'n fawr â gwaith William, o dan y ffug enw 'Fi'.

Ymson Yr Ail Ryfel Byd

Codaf yn gynnar bore 'ma am ddydd arall o ryfel. Pigaf fy ngwn lan a rhedeg i gael brechwast ,bîns tin a bacwn ,os oeddwn yn lwcus, mor fffiaidd a bwyta sanau drewllyd ar ôl iddynt gael eu trochi yn y tŷ bach a chaledi am gant o flynyddoedd. A dyma beth mae rhaid i fi a miliynau o filwyr eraill fyw arno bob bore.

Eisteddaf ar bwys bachgen tua deunaw, mae'n edrych ar lun o'i deulu ar arfordir Cymru wedi gwisgo fyny yn gymen fel ei bod yn mynd i gwrdd â'r frenhines. Mae'r cychod ar y dŵr yn pefrio yn y cefndir. Mae'r teulu yn eistedd ar friciau oedrannus. Gyda merch yn rhoi cwtsh i'r bachgen a phawb yn hapus cyn y rhyfel.

Beep!!...Beep!!... Mae'r larwm helaeth yn atseinio o gwmpas y ffosydd mor frwnt fel twlc mochyn, mor hir dwyt ti ddim yn gallu gweld y diwedd ac mor fwdlyd bydd dy draed yn cwmpo mewn iddo. Mae hyn yn hunllef. Meddyliaf, dyma'r larwm i ddweud wrthon ni ein bod o dan ymosodiad .Felly, pigaf fy ngwn lan am beth allai fod y tro olaf—mae o'n floc o iâ . Dydw i ddim yn gallu teimlo fy nwylo, mae pobl yn rhedeg fel y gwynt. Beth sydd yn mynd ar fy nerfau ydy'r dyn tew ar ben y tŵr yn gwaeddi, gyda llygaid mawr barcud a gwn yn ei law. Rhedaf i fy mhostyn roedd hi felawns ond gyda phobl yn dal gynnu.

Mae'r lle yn rhewgell. BANG! Mae'r fwled gyntaf yn cael ei saethu, neidiaf mewn sioc. Meddyliaf am fy nheulu ffyddlon a fy mhlant hapus a fy ngwraig hardd gyda'i gwallt melyn meddal. Meddyliaf am fy ffrindiau a pob eiliad hwylus roeddwn yn cael gyda'n gilydd. Meddyliaf pam wnes i arwyddo lan am hyn? Dechreuaf saethu. Edrychaf i'r dde gwelaif gyrff ar y llawr. Mae'r dynion yn cwmpo fel adar. Teimlaf yn ofnus tu hwnt. Mae hi'n twll marw. Dydw i ddim yn gallu clywed unrhyw un heblaw am dri milwr yn y pellter. Mae dau ohonyn nhw mewn poen ac yn wan. Cerddaf lan atyn nhw. Mae wedi rhoi ei gwn lawr. Rydw i'n meddwl eu bod nhw'n deulu .Does dim sŵn i glywed heblaw am un person yn dechrau crio. Yn sydyn mae sŵn yn dod. Sŵn mawr fel person yn gweiddi.

Symudaf yn agosaf i'r gweiddi, mae e'n gwaedu am help. Rhedaf lawr y ffosydd, mae bwled yn ei goes a gwaed yn arllwys oddi ar ei goes fel ffrwydriad. Rhedaf lan i nôl e ond mae rhywun yn saethu, mae'n targedu fi. BANG! Mae bron yn bwrw fi BANG! Mae'n dod yn agosaf ataf, rwy'n gwrthio'r person mas o'r ffordd. BANG!...

gan William





Pytiau Penalltau

Ymweliad Anni Llŷn

Daeth Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru, i'r ysgol i weithio gyda blwyddyn 4 yn ddiweddar. Chwaraeon ni gêmâu geiriau i ddechrau, fel geiriau gwir a ffug, dod o hyd i eiriau un llythyren o'r wyddor a dewis ein hoff eiriau. Dysgon ni lawer o eiriau newydd fel 'pendwmpian' ac 'ansbaradigaethus'!

Ar ôl amser chwarae, ysgrifennon ni farddoniaeth am y tywydd, yr ysgol, pêl-droed a llawer mwy! Wedyn, roedd rhaid i ni ddarllen y cerddi yn gywir heb stopio. Cawson ni lawer o hwyl gyda Anni – diolch am ddod aton ni!

gan Mali Wilson

Rhai o'n Cerddi:

Y Tywydd gan Sophie Mc Dermott

Glaw trwm, swnllyd,
Dawnsio yn yr haul,
Cyffrous, ofnus, hapus a llon:
Tywydd.



Rhedeg

Cyflym ac iach,
Loncio, rasio, ennill!
Blinedig ar y trac rasio:
RHEDEG!

gan Harvey Lee

“Caerau’r iaith
yw plant y crud”

Llyfr Da

Bach, mawr, lliwgar,
Darllen yn feddylgar,
Mynd ar antur trwy y môr o eiriau:
Llyfr da.

gan Madison Lewis

Cystadleuaeth y Criw Mentrus



Rhoddodd Mrs Woods her i'r holl ysgol i fod yn fentrus a chreu busnes. Penderfynodd blwyddyn 1 a 2 greu bagiau i werthu i'r rhieni. Yn gyntaf, roedd angen ymchwilio mathau o fagiau a'u pris. Daeth Mr Needs o gwmni Jansan Wear i roi cyngor i ni. Penderfynom ni wneud patrymau tebyg i waith Laura Ashley a chynlluniodd pawb ei batrwm ei hun. Wedyn, pleidleision ni dros y

patrwm gorau, sef un patrwm o flwyddyn 1 ac un patrwm o flwyddyn 2. Penderfynon ni godi £5 am y bagiau a gofynnem ni i rieni archebu'r bagiau cyn i Mr Needs eu creu. Yn olaf, cawsom ni siop ar iard yr ysgol a llwyddom ni i godi dros £100!

Ar ôl hyn, roedd rhaid i ni gyflwyno ein busnes o flaen yr ysgol a Mr. Needs, Mr. Huws a Mr. Owen. Blwyddyn 1 a 2 a Blwyddyn 5 enillodd y gystadleuaeth a mynd ymlaen i gystadleuaeth y Criw Mentrus. Rydym ni newydd glywed bod Blwyddyn 5 trwyddo i'r rownd rhanbarthol! Da iawn a phob lwc, Blwyddyn 5!

gan Ollie-Twm Pitman

Wyau Di-ri!

Cyn gwyliau'r Pasg, daeth anifeiliaid newydd i ymuno â theulu Penalltau: ieir! Maen nhw'n byw ar bwys yr ysgol a chyn bo hir byddwn ni'n dechrau gwerthu'r wyau. Mae'r dosbarth Meithrin a'r dosbarth Derbyn yn casglu'r wyau ac mae pob dosbarth arall yn cael cyfle i ofalu amdany'n nhw.

Pythefnos yn ôl, daeth wyau byw i'r dosbarth Meithrin. Mae'r ysgol i gyd wedi mwynhau gwyllo'r cywion yn deor a thyfu. Mae gennym ni un ferch a phum bachgen. Mae'r cywion yn fflwfflyd iawn!

Rhaid i ni fod yn ofalus iawn gyda nhw rhag iddyn nhw gwmpo!

gan yr Eco-Bwyllgor



Merched y Wawr yng nghwmni Linda White



Mae tymor y gwyliau wedi dechrau'n gynnar i rai aelodau o Ferched y Wawr Cwm Rhymni, ac felly dim ond criw bychan ddaeth at ei gilydd nos Fercher, Mai 17, i wrando ar Linda White yn trafod clytwaith a chwiltio. Cawsom wledd i'r llygaid, a chyfle i wrando ar hanes difyr dros ben. Swynwyd yr aelodau gan waith lliwgar dwylo Linda, a chan yr amrywiol hanesion sydd ganddi i'w hadrodd am ei gwaith.

Gan fod cwiltiau a chlytwaith Linda mor hardd a chywrair, roedd yn syndod – ac yn galonidd i lawer ohonom – i glywed iddi ddechrau ar y gwaith ar ôl ymddeol, a

hynny trwy gyfres o gyd-ddigwyddiadau. Mae gan Linda ffordd ddihymongar ac annwyl o gyflwyno'i hanes a'i chreffftwaith, a chlywsom hefyd am y cefndir i sawl darn o'i gwaith. Mae llawer o'r eitemau a gwyd ganddi wedi eu gwneud ar gyfer ffrindiau neu aelodau'r teulu, ac yn adlewyrchu eu diddordebau a'u personoliaethau mewn lliwiau a phatrymau cain.

Mae grŵp cwiltio Linda yn codi arian ar gyfer Tŷ Hafan ar hyn o bryd, a daeth hi â dewis o enghreifftiau o'u gwaith i'w gwerthu er budd yr elusen honno. Felly roedd modd i ni fynd â pheth o waith hardd eu dwylo adre gyda ni y noson honno. Codwyd swm teilwng iawn ar gyfer elusen sydd mor agos at galon pob un ohonom.

Roedd pawb oedd yno wedi eu swyno gan gyflwyniad Linda, ac wedi eu hysbrydoli ganddi hefyd – cymaint felly nes i'r aelodau apelio arni i ddychwelyd nes ymlaen yn y flwyddyn! Yn yr hydref felly fydd Linda yn dod atom eto i ddangos i ni sut i greu anrheg Nadolig hwylus, hardd, twt – a syml, meddai.

Hwn oedd cyfarfod ffurfiol olaf y tymor i Ferched y Wawr Cwm Rhymni, ond mae'r wibdaith arferol wedi ei threfnu ar gyfer mis Mehefin. Ar Fehefin 24^{ain} fe fyddwn yn ymweld â rhyfeddodau Tred Dewi (yn fwy adnabyddus i chi fel 'Dewstow' efallai) a Chaerwent, y pentref bach lle ffurfiwyd y Gymraeg. Os hoffech ymuno â ni cysylltwch â Gaynor Williams ar 01443 814079 neu gaynorw555@gmail.com.

Mae swyddogion y gangen wrthi ar hyn o bryd yn prosesu sylwadau difyr a chreadigol yr aelodau ar gynnwys posibl rhaglen y gangen 2017-18. Fe fydd ffrwyth eu myfyrdodau yn cael ei ddosbarthu yng nghyfarfod cyntaf y tymor nesaf ar Fedi 20^{fed}. Felly os am gwmni da, difyr a chyfle i ddysgu mwy am Gymru a'i phobl (yn enwedig y rhai talentog sy'n byw yn ein CwmNi) dewch atom y noson honno.

Cewch ragor o wybodaeth am y gangen a'i gweithgareddau trwy gysylltu gydag Elin Jones ar 01443 816366 (elinphillips3@btinternet.com) neu Marian Fairclough ar 02920 885151 neu faircloughme@aol.com.

Cofiwch fod modd derbyn eich papur bro ar-lein. Ac mae yna fanteision o wneud hynny,


- Byddwch yn derbyn eich papur yn fwy buan.
- Bydd y cyfan mewn lliw
- Byddwch yn arbed papur er lles y blaned.

Beth amdani felly? Cysylltwch â'r Golygydd.

benamary2000@yahoo.co.uk golygydd@papurbrocwmni.cymru

Clwb Llyfrau CwmNi

Yng nghyfarfod mis Mai daethon ni ynghyd i drafod “Rhwing Dau Fyd” gan Mared Lewis, ac roedd y rhan fwyaf o’r criw wrth eu bodd gyda’r nofel’ma sy’n sôn am hanes y Gymraes ifanc Gwen a’r Eidales oedrannus Rosa. Wrth fentro ar fywyd newydd fel athrawes yn Llandudno, mae Gwen yn symud mewn i fflat drws nesa i gaffi Eidalaid. Ac, er braidd yn gyndyn ar y dechrau, mae hi’n cael ei thynnu mewn i fyd Rosa a’i mab Tony.



Mae sawl llinyn i’r stori ac mae digon o bethau yn digwydd i gadw diddordeb. Rydyn ni’n dysgu am hanes Gwen yn yr ysgol, sydd ymhell o fod yn fêl i gyd, ac ymddygiad ystrywgar y bachgen Gavin Masters, hefyd ei pherthynas gyda’i chyn-gariad ac yn bwysig oll, ei pherthynas gythryblus gyda’i thad. Ochr yn ochr â hanes Gwen, mae Rosa yn adrodd ei stori hi, fel y Rosetta ifanc a gwmpodd mewn cariad a Rino yn Bardi ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Er i stori serch Rosetta a Rino fod yn rhy ramantus i’r sinigiaid yn ein plith, rhodd y rhan yma o’r nofel gyfle i’r awdures sôn am amgylchiadau’r bobl gyffredin yn yr Eidal yn ystod y rhyfel. Mae hefyd yn crybwyll hanes yr Eidalwyr ym Mhrydain gafodd eu carcharu fel “gelynion” a’r rhai fu farw pan gafodd y llong *Arandora Star* ei suddo.

Ond ar y llaw arall mae sawl golygfa yn y nofel sy’n llawn hiwmor, fel hanes y gwely a brecwast yn Bardi sy’n cael ei redeg gan Saesnes, a ble mae Gwen a Rosa yn gorfod rhannu stafell ddwbl. Rhai o’r pethau fwynheais i fwyaf oedd y disgrifiadau o rai o’r cymeriadau, yn enwedig y bobl hŷn, fel Rosa ei hun a’i ffrind Emrys, cwsmer mwyaf ffyddlon y caffi. Cymeriad cofiadwy arall yw Mia, yr athrawes gelf fywiog a lliwgar, sy’n dod yn ffrindiau gyda Gwen ac yn edmygu Tony o bell. Hefyd mae’r disgrifiad o daith Gwen a Rosa i Bardi yn wych (mae’n amlwg fod yr awdures wedi ymweld â’r lle ei hunan). Er fod rhai pobl yn ein grŵp yn meddwl gallai rhai llinynnau’r stori fod wedi datblygu’n ddyfnach, mae’r awdures yn dod â nhw yn dwt iawn at ei gilydd ar y diwedd ac, yn fy marn i, mae’r nofel’ma wedi’i sgrifennu’n dda ac yn werth ei darllen.

Ym mis Mehefin byddwn ni’n trafod “Dan Amheuaeth” gan John Alwyn Griffiths. Beth am ymuno â ni?

Diolchwn i Jan Penney am drefnu Clwb Llyfrau CwmNi ac am ysgrifennu’r adolygiad hwn. Ceir manylion cyfarfod y Clwb yn “Cwmni” pob mis. Gobeithiwn dderbyn ambell adolygiad gan aelodau eraill o’r grŵp yn ystod y misoedd nesaf.



Dydd Ewyllys Da

18fed o Fai

Diolch i’r cyfaill Sian John am yrru’r cerdyn Dydd Ewyllys Da hwn.

Diwrnod unigryw Cymreig yw hwn a sefydlwyd gan y Parchedig Gwilym Davies 95 mlynedd yn ôl yn 1922. Yr Urdd fu’n gyfrifol am hyrwyddo’r neges ers rhai blynnyddoedd bellach. Ac eleni Bwrdd Syr IfanC sydd â’r cyfrifoldeb o lunio Neges Heddwch ac Ewyllys Da Ieuenctid Cymru 2017. Thema’r neges eleni yw Cydraddoldeb i Bobl Ifanc

Mae’r papur bro wedi bod yn atgoffa darllenwyr i gyfarch yn y modd hwn ers sawl blwyddyn ond eleni, yn anffodus, aeth hyn yn ango. Byddai’n braf meddwl y gallai rhywun atgoffa’r golygydd anghofus mis Ebrill nesa i barhau i hyrwyddo’r arfer!

Colofn Dafydd Islwyn

Emynydd adnabyddus arall y mae gennym hawl arno ydy Y Parchedig J.J. Williams (1869 - 1954). Bu ef yn weinidog Capel yr Annibynwyr, Moreia, Rhymni, o 1895 hyd at 1903. Mae chwech o'i emynau yng Nghaneuon Ffydd. Roedd yn ŵr amryddawn. Roedd yn brifardd. Enillodd y Gadair am awdl "Y Lloer" yng Nghaernarfon yn 1906. Enillwyd y Goron gan Y Parchedig H. Emyr Davies (1878 - 1950) a'r englyn "Blodau'r Grug" gan Eifion Wyn. Ymhen dwy flynedd arall, y Genedlaethol yn Llangollen, a'r un tri yn ennill eto. Roedd Eifion Wyn yn englynwr cydnabyddedig.

Cafodd ef gam yng nghystadleuaeth yr englyn ym Mae Colwyn 1910. Y testun oedd "Y Wawr" ac fe'i beirniadwyd am beidio â chanu yn llythrennol i'r testun. Ceisiodd ledw gorwelion yr englyn gyda'i englyn,


Min wen yn ymunioni – a'r awel
Ym modrwyau'i thresi;
A lliw teg ei heurwallt hi
Leinw'r glyn â'r goleuni.

Roedd yn feirniad uchel ei barch yn y Genedlaethol. Beirniadodd yr awdl un deg chwe gwaith a'r englyn chwe gwaith.

Eleni mae'n addas ei gofio oherwydd ei gysylltiad â Hedd Wyn, a laddwyd yn y Rhyfel Mawr ar yr 31ain o Orffennaf 1917. Beirniadodd J.J. Williams yr awdl ym Mangor yn 1915; Aberystwyth yn 1916 a Birkenhead yn 1917. Testun yr awdl ym Mangor oedd "Eryri"; "Ystrad Fflur" yn Aberystwyth ac "Yr Arwr" yn Birkenhead, Penbedw. Cystadlodd Hedd Wyn yn y tair eisteddfod. Yn cyd-feirniadu â J.J. Williams ym Mangor oedd John Morris Jones a T. Gwynn Jones. O'r tri, J.J. Williams oedd y mwyaf caredig o lawer yn ei sylwadau a mentrodd ddweud fod cadeiriau yn aros Y Gwyn Gell, sef ffugenw Hedd Wyn. Yn Aberystwyth ei ffugenw oedd Y Fantell Fraith.

Nid oedd T. Gwynn Jones yn beirniadu yn Aberystwyth. Berw oedd y trydydd beirniad. Fe gytunodd ef â John Morris Jones i gadeirio Y Parchedig John Ellis Williams, Bangor. Dymunai J.J. Williams gadeirio'r Fantell Fraith sef Hedd Wyn, am awdl oedd yn fwy i ysbryd Ystrad Fflur nag i ddigwyddiadau

Barn T. Gwynn Jones ar ôl cael darllen y ddwy awdl cyn yr Eisteddfod, oedd cytuno â J.J. Williams. Roedd ef yn beirniadu ymhen y flwyddyn yn Birkenhead gyda J.J.



Williams. Y trydydd beirniad yno oedd Dyfed, a hoffai gwmni'r beirdd yn Rhymni yn ei ddydd. Beirniadodd y tri mai awdl Fleur-de-Lis, ffugenw Hedd Wyn, oedd yn deilwng o'r Gadair. Cafwyd seremoni fythgofiadwy yn Birkenhead, Seremoni y Gadair Ddu.

Noson eithriadol o wlyb ydoedd nos Iau, 13^{eg} o Fedi 1917 pan gynhaliwyd cyfarfod yn y Neuadd Gynnull yn Nhrawsfynydd i dderbyn y Gadair Ddu. Hysbyswyd yn y cyfarfod hwnnw y byddai'r Prifardd J.J. Williams yn ymgymryd â golygu'r Gyfrol Goffa. Ymhen ychydig fisoedd daeth ei gyfrol o'r wasg. Yr 8^{fed} o Chwefror 1918 ydy'r dyddiad wrth ragair y golygydd, "Cerddi'r Bugail" oedd ei theitl. Cwynodd rai am y teitl gan ddweud nad bugail oedd Hedd Wyn ac na chanodd fawr ddim am ddefaid na bugeiliaid !

Canodd am Drawsfynydd. Ar dudalen 152 cyhoeddwyd y pennill adnabyddus "Atgo"

Dim ond lleuad borffor
Ar fin y mynydd llwm;
A sŵn hen afon Prysor
Yn canu yn y Cwm

Mae ôl y golygydd ar y pennill hwn. "Gwenlloer borffor" oedd yn y gwreiddiol - newid er gwell. Y cwestiwn sy yn codi wrth gofio J.J. Williams a Hedd Wyn ydy beth petai J.J. Williams wedi cael ei ffordd yn Aberystwyth yn 1916, a fuasai Hedd Wyn wedi cystadlu yn 1917?

Colofn y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Mae'r haf wedi dod! Pan mae'r tywydd yn braf mae pobl yn meddwl am adael eu gwaith a mwynhau eu hunain. Yn y gerdd yma, mae'r bardd yn disgrifio sut mae e eisiau dianc i'r haul a rasio i lawr y ffordd ar ei feic. Bydd ei grys yn agor fel adenydd yn y gwynt, a'r cloddiau fel rhuban hir wrth iddo fe deithio yn gyflym. Bydd e'n cofio'r daith am byth.

I ble hoffech chi ddianc tybed?

Dianc

Fe fyddai'n braf cael dianc.
Neidio ar feic ieuenctid
a rasio i'r haul.

Gadael i'r awel
olchi fy ngwallt,
troi fy nghrys agored
yn adenydd cadarn.

Hwyllo i lawr ffyrdd unionsyth,
gweld y cloddiau'n
stribedi o ffilm
ar y cof perffaith.

Fe fyddai'n braf
ar ddydd o haf
gael dianc.

W. Dyfrig Davies

dianc : to escape

ei grys : his shirt

adenydd : wings

cloddiau : hedges

rhuban hir : a long ribbon

am byth : for ever

tybed : I wonder

ieuenctid : youth

awel : breeze

cadarn : strong



ffyrdd unionsyth : straight roads

cof : memory

stribedi o ffilm : filmstrips



Yr Atebion: Dyma ni! Sawl un gawsoch chi'n iawn wrth wneud posau tudalen 5?



Cit Rygbi Newydd i Fro Allta



Fe ddaeth ymwelwyr pwysig i'r ysgol yn ystod gwasanaeth ysgol er mwyn cyflwyno cit rygbi newydd i'r tim rygbi. Ashton Hewitt o dîm Dreigiau Gwent ac aelod o Gymuned Dreigiau Gwent ddaeth i'r ysgol er mwyn trosglwyddo'r cit newydd i dîm rygbi'r ysgol.

Gwerthwyd cacennau blasus gan Gyfeillion Bro Allta er mwyn codi arian ar gyfer y cit, yn ogystal â help busnesau lleol fel ein noddwyr: HiSpeed Tyres Nelson, John's Café a D. Emlyn Lloyd Ltd. Arhosodd Ashton Hewitt gyda ni yn ystod amser chwarae i sgwrsio ymhellach gyda'r plant ac i roi llofnodion iddynt. Hoffen ddiolch yn fawr i Gyfeillion Bro Allta, Ashton Hewitt a Chymuned Dreigiau Gwent yn ogystal â'n noddwyr lleol am eu holl waith caled.

CYWIRDEB: Yn yr eitem "Coginio Cynradd yr Urdd 2017" dylid fod wedi nodi i Woody Palmer, Ysgol Bro Allta ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth. Ein hymddiheuriad i Woody ac i Ysgol Bro Allta. *Golygydd*

Estynnir gwahoddiad i chi i **Ysgol Undydd Dathlu Cymunedau a gynhelir yn Senedd-dy Owain Glyndŵr Machynlleth, ddydd Gwener, 30 Mehefin, 11 yb – 4.00 yp.**

Trefnir y digwyddiad gan weithgor Cymunedau Byw Cymdeithas yr Iaith er mwyn trafod datblygu cynllun ymarferol i gymhathu dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau.

Mae'r diwrnod yn ymwneud â dathlu'r digwyddiadau diwylliannol sy'n digwydd yn barod a chodi hyder pobl i groesawu dysgwyr a mewnfudwyr i ddigwyddiadau Cymraeg. Bydd nifer o gynrychiolwyr yn bresennol yn ogystal â phresenoldeb gan y mentrau iaith, Mudiad Dathlu'r Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Rydyn ni'n awyddus iawn i wahodd arweinwyr cymunedol, cynrychiolwyr mudiadau, dysgwyr brwdfrydig ac unrhyw un sydd am greu cynllun er mwyn ymestyn allan at ddysgwyr a mewnfudwyr a'u cymhathu.

Os hoffech chi fwy o wybodaeth am y digwyddiad cysylltwch â mi ar nia.llywelyn@googlemail.com neu 01650 511865.

Gobeithio eich gweld yno, ym mhrifddinas hynafol Cymru!
Yn gywir,
Nia Llywelyn (Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith)



Boreau Coffi

Bore Coffi Caffi'r Graig Bedwas Dydd Llun (10:30-11:30)

Bore Coffi Wetherspoon's Caerffili Dydd Mawrth (10:00-11:00)

Bore Coffi Wetherspoon's Coed Duon Dydd Iau (10:30-11:30)



Teithiau Clwb Cerdded

Mehefin 7 - Comin Bedwellty - Maes parcio Can-
olfan Hamdden Markham NP120QX

Ebrill 26 - Cyfarfod Cynllunio -
Swyddfa Menter Caerffili, Suite 1,
Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW

**S'A'D'W'R'N
S'I'A'R'A'D'**

Mehefin 24 - 10:00-12:00

The Living Room Café,
Tredegar Newydd NP246FA

Cyngerdd Haf

gyda

ARWEINYDD
OSIAN ROWLANDS

C.Ô.R.

CYFEILYDD
JEFFREY HOWARD

REQUIEM MOZART

22 | 7 | 2017

7pm

Tocynnau £10

Eglwys Martin Sant, Caerffili

Hefyd cerddoriaeth gan | Also music by
**Monteverdi | Byrd | Mendelssohn | Purcell | Durufle
Stanford | Sir Karl Jenkins**

Tocynnau | Tickets:
Osian Rowlands - 07980 302285
osian_llyr@hotmail.com

Elw tuag at
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
Eisteddfod y Cymoedd

Gyda chefnogaeth | With support from

Tŷ CERDD

Clwb Darllen

Cwm Ni

Ail Lawr

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Mai 8fed

Rhwng Dau Fyd

Mehefin 5ed

Dan Amheuaeth

Gorffennaf 3ydd

Pant y Wennol

Medi 4ydd

Dewis yr Aelodau

Hydref 2ail

Awst yn Anogia

Cyswllt

janpenney@aol.com

Croeso Cynnes i Bawb

Pêl-bluen badminton.

Dewch i ymuno â ni am gêm o bêl-bluen – Cyfle i ymarfer eich **Cymraeg** a chadw'n heini ar yr un pryd. An opportunity to practise your **Cymraeg** and keep fit at the same time.

Pryd | When?

Bob dydd Gwener | every Friday
1-2pm

Ble | Where?

Canolfan Hamdden Pont-y-pŵl

Croeso i bawb – bob lefel o brofiad

All levels welcome.

Gwisgwch yn addas

Dress accordingly

Bosib llogi rased o'r ganolfan

Rackets available to hire from the centre.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

CYMRAG

Dysgu
Learn



Happy
Snappers



Lluniau
Llawen

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced

Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael

Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

Llyfrau'r Enfys

Facebook/Llyfrau'r Enfys

Twitter @llyfrau'r enfys

Vikki Alexander-07970172754



Clwb Cànadram

Y Memo, Trecelyn

Nos Iau 5:00-

6:30pm

Theatr Ieuencid

Sefydliad Y Glowyr

Coed Duon

Nos Fawrth

6:00-7:30pm

£3.50 yr wythnos

i ieuencid oedran 12+

Saib@Siloh – gyda loan

Cyfarfod defosiynol misol –
croeso i bawb

BEIBL BYW

10.30 – 11.30 ar fore Llun

5 Mehefin – Trawsnewidiad o'r tu fewn

(1 loan 2:29 – 3:10)

3 Gorffennaf - Sefyll o flaen Duw

(1 loan 3:11 -24)

Astudiaeth Llunïaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk /

info@siloh.co.uk / www.siloh.co.uk

CF82 7AF 01443 813617

IOGA

Sesiynau wythnosol

Nos Iau

5:00-6:00pm

Capel Siloh

Ystrad Mynach

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar
022 362364 neu 07914 355195

[facebook.com/
tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)



**Defnyddiwch Gardiau
Debyd/Credyd**

Diwrnod	Clwb	Oedran	Pris
Dydd Llun	Pel droed a Rygbi Bach 4:30-5:15 Neuadd Y Gwyndy	Meithrin i blwyddyn 2	£2.50
Dydd Mawrth	Gymnasteg 4:30-5:15 Neuadd Y Gwyndy	Meithrin i blwyddyn 2	£3
Dydd Iau	Dawns 4:00-4:45 Neuadd Y Gwyndy	Meithrin a Derbyn	£2.50
Dydd Iau	Pel droed a Rygbi Bach 4:30-5:15 Neuadd Gelli Haf	Meithrin i blwyddyn 2	£2.50



01443 879396

Coleg Gwent

Cyrsiau Penwythnos

Pob un rhwng 8:45 a 17.00

24-28/07/17 Llun-Gwe Campws Pont-y-pŵl

30/06-02/07/17 Gwe-Sul Llambed

Mae'r **Ysgol Haf** yn cynnwys 30 awr o wersi dros gyfnod o bum niwrnod. Bydd 8 lefel wahanol o ddosbarthiadau, gan gynnwys dosbarth i ddechreuwr pur. **£50 yn unig.**

Pob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,

Ystrad Mynach

Dillad Gwaith * Cit Hamdden * Gwisg Ysgol



JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol Bowen, Aberbargoed, CF819EP

